COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O’R CABINET A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 4 CHWEFROR 2025 14:30

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | J Gebbie | E L P Caparros | P Davies |
| M J Evans | M Jones | | |

Presennol – O Bell

HM Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Adam Provoost | Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio Strategol |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Gary Ennis | Rheolwr Grŵp Cymorth Busnes |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes – Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Ddiddordeb

Y Cynghorydd Jane Gebbie – Personol – Eitem 6 – fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig

**433. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025-26 i 2028-29 a Phroses Ymgynghori ar y Gyllideb Ddrafft**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Jon-Paul Blundell, Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3, oedd cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'r Cabinet mewn perthynas â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddrafft gan Banel Ymchwilio a Gwerthuso’r Gyllideb yn ogystal â sylwadau ac argymhellion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r adroddiad, y pwysau cyllidebol arfaethedig a'r cynigion i leihau'r gyllideb.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Cabinet argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, Panel Ymchwilio a Gwerthuso’r Gyllideb a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc, gan nodi budd y cyhoedd mewn meysydd o'r gyllideb gan gynnwys cynigion ynghylch addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion. Nododd y Cabinet ymhellach lefel yr adborth gan drigolion, athrawon ac ysgolion ynghylch toriadau arfaethedig i'r gwasanaeth cerdd ysgolion a nododd na fyddai'r toriad hwnnw'n mynd rhagddo. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Chwefror 2025 |

**434. Mudo Cronfa Ddata Pridiannau Tir i Gofrestrfa Tir EM**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Grŵp Cymorth Busnes, oedd diweddaru'r Cabinet ar y Rhaglen Genedlaethol Pridiannau Tir Lleol a chynnydd CBSP wrth fudo data Pridiannau Tir Lleol yn dilyn adroddiad blaenorol i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2022, gyda mudo byw wedi'i gynllunio ar gyfer 20 Chwefror 2025.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd i hysbysu am y newidiadau, oedi cyfredol o fewn y system ar gyfer ymholiadau chwilio tir a phwysau ariannol o fewn y gyllideb. Cafodd y cwestiynau hyn sylw gan y Rheolwr Grŵp Cymorth Busnes a'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, gan gadarnhau bod pob asiant eiddo tirol lleol yn gwbl ymwybodol o'r broses.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Cabinet yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Chwefror 2025 |

| | |
|---|---|
| | |

**435. Protocol Diwygiedig ar gyfer Enwi a Rhifo Strydoedd**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Grŵp Cymorth Busnes, oedd egluro adolygiad o'r Protocol ar gyfer Enwi a Rhifo Strydoedd ar gyfer datblygwyr lleol y dyfodol a'r rhai sy'n dymuno newid enwau strydoedd, gan gynyddu tryloywder y broses.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch adolygu costau'r Cyngor, ceisiadau ôl-weithredol a chyfranogiad posibl preswylwyr yn y broses o enwi strydoedd. Cafodd y cwestiynau hyn sylw gan y Rheolwr Grŵp Cymorth Busnes, gan egluro ei bod yn ofynnol i ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned am enwau strydoedd newydd.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet y Protocol Enwi a Rhifo Strydoedd newydd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Chwefror 2025 |

**436. Polisi Derbyn i Ysgolion 2026-2027**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Polisi Derbyn i Ysgolion wedi'i ddiweddaru.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiwn ynghylch a oedd unrhyw newidiadau sylweddol wedi'u gwneud, a gafodd sylw gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc a eglurodd mai dim ond mân newidiadau oedd wedi'u gwneud.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet Bolisi Derbyn i Ysgolion 2026-2027. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Chwefror 2025 |

**437. Diweddariad Rhaglen Gyfalaf Chwarter 3 2024-25**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ynghylch sefyllfa'r Cyngor o ran y Rhaglen Gyfalaf wedi'i diweddaru fel yr oedd |

| | |
|---|---|
| | ddiwedd mis Rhagfyr 2024 yn ogystal â nifer o newidiadau arfaethedig i'r Rhaglen i'w hystyried.<br><br>PENDERFYNWYD:Fe wnaeth y Cabinet:<br><br>• nodi diweddariad Rhaglen Gyfalaf Chwarter 3 2024-25 y Cyngor hyd at 31 Rhagfyr 2024 (yn Atodiad A i'r adroddiad).<br>• gytuno y dylid cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) i'r Cyngor i'w chymeradwyo.<br>• nodi'r Dangosyddion Darbodus a'r Dangosyddion Eraill gwirioneddol ar gyfer 2023-24 a'r rhai rhagamcanol ar gyfer 2024-25 (Atodiad C).<br>Nododd y Cabinet hefyd y prosiectau niferus sydd ar y gweill ar hyn o bryd fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Chwefror 2025 |

### 438. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog – Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol, oedd hysbysu'r Cabinet o gyhoeddi'r Adroddiad Monitro ar gyfer Cwynion Corfforaethol.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd gan y Cyngor, yr amser sydd ei angen i ymateb iddynt, a faint o geisiadau a broseswyd ar ran cyrff cyhoeddus a'r cymorth a roddwyd iddynt. Cafodd y cwestiynau hyn sylw gan y Prif Swyddog – Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol.<br><br>PENDERFYNWYD:Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Chwefror 2025 |

### 439. Ymgynghoriad CCA Drafft Tai Fforddiadwy

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, oedd ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar Ganllaw Cynllunio Atodol drafft ar gyfer Tai Fforddiadwy i roi canllawiau penodol i ddatblygwyr ar yr holl ofynion, diffiniadau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag adeiladu tai cynaliadwy mewn prosiectau parhaus a phrosiectau yn y dyfodol yn sir Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr ymgynghoriad yn para chwe wythnos, ac ar ôl hynny, bydd yr adroddiad yn cael ei gymryd yn ôl i'r Cabinet |

| | |
|---|---|
| | i'w gymeradwyo.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch fforddiadwyedd, lwfans posibl ar gyfer preswylwyr sy'n agored i niwed, a chanran y morgeisi arfaethedig ar gyfer prynu neu rentu. Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau ac Arweinydd y Tîm Polisi Cynllunio Strategol, gan nodi y bydd yr ymgynghoriad yn ystyried adborth gan Aelodau a phreswylwyr ar gyfer y Canllaw Cynllunio Atodol canlyniadol a phwysigrwydd diogelu fforddiadwyedd ochr yn ochr â hawliau enwebu fel Awdurdod Lleol.<br><br>PENDERFYNWYD:Fe wnaeth y Cabinet:<br><br>• gymeradwyo'r CCA drafft ar gyfer Tai Fforddiadwy (sydd ynghlwm yn Atodiad 1) fel sail ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 6 wythnos.<br>• awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud mân newidiadau cyflwyniadol, a chywiriadau teipograffig neu ffeithiol yn ôl yr angen cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.<br>awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ac i adrodd canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl i'r Cabinet i'w cymeradwyo er mwyn anfon yr Adroddiad i'r Cyngor a cheisio mabwysiadu'r CCA terfynol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Chwefror 2025 |

**440. Darparu Gwasanaethau Diogelwch Traeth a Dwr mewn Partneriaeth â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI)**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, oedd dilyn y cytundeb rhwng CBSP a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub i ffurfio partneriaeth achub bywyd tymhorol ar y traeth, a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r cytundeb fynd yn ei flaen. Byddai'r cytundeb arfaethedig yn golygu cynnydd o tua £9,000 dros gyfnod y cytundeb tair blynedd o'r gyllideb Cymunedau bresennol.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch a ddylai pob Awdurdod Lleol gyfrannu at Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub ar gyfer diogelwch ar y traeth a hepgor rheolau arferol y weithdrefn gontractau. Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, gan grybwyll bod Ardoll Ymwelwyr wedi'i gosod gan Lywodraeth Cymru. |

<table>
<tr><td></td><td>PENDERFYNWYD: Fe wnaeth y Cabinet:<ul><li>gytuno i fwrw ymlaen ag opsiwn 4 a amlinellir yn yr adroddiad.</li><li>gytuno i hepgor y rheolau yn y Weithdrefn Gontractau sy'n ymwneud â'r gofyniad i gael dyfynbrisiau neu dendrau drwy gystadleuaeth agored ar gyfer darparu'r gwasanaethau ar y sail y gall un tendrwr yn unig ddarparu'r gwasanaethau yn unol â rheol 3.2.3. Wrth gynnig cam o'r fath, amlygir bod Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub yn sefydliad unigryw mewn perthynas â gwasanaethau o'r fath oherwydd ei ffocws craidd ar ddiogelwch arfordirol.</li></ul>ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i gwblhau trafodaethau gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub a llunio cytundeb partneriaeth tair blynedd a chytundeb lefel gwasanaeth cysylltiedig ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategu at y cytundeb, ac unrhyw welliannau sydd eu hangen wedi hynny, gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub ac, wrth wneud hynny, cytuno ar hepgoriad dan baragraff 3.2.3 o Reolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad gwneud y penderfyniad</td><td>4 Chwefror 2025</td></tr>
</table>

**441. Gorchymyn Prynu Gorfodol Adfywio Glannau Porthcawl Datganiad Breinio Cyffredinol**

<table>
<tr><td>Y penderfyniad a wnaed</td><td>Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar Orchymyn Prynu Gorfodol Porthcawl yn dilyn cadarnhad ym mis Rhagfyr 2023, yn ogystal ag ymgysylltu a thrafod gyda pherchnogion tir yr effeithiwyd arnynt.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiwn o ran hyfywedd a gwerth ariannol proses y Gorchymyn Prynu Gorfodol. Atebwyd hwn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, gan nodi bod angen y Gorchymyn a’i fod er budd y cyhoedd er mwyn rhoi'r budd mwyaf yn ôl i'r Fwrdeistref o'r broses hon.<br><br>PENDERFYNWYD: Fe wnaeth y Cabinet:<ul><li>awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, i gymryd pob cam i weithredu'r Gorchymyn Prynu Gorfodol gan gynnwys, fel y bo'n berthnasol, gweithredu'r Datganiad Breinio Cyffredinol ar y ffurf y dangosir yn Atodiad C yr adroddiad (yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau fel yr awdurdodir gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau) a/neu gyflwyno Hysbysiadau Mynediad mewn perthynas â buddiannau a hawliau yn nhir y Gorchymyn Prynu Gorfodol.</li></ul></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, i drafod, cytuno ar delerau a gwneud cytundebau gyda phartïon yr effeithir arnynt, gan wneud darpariaeth ar gyfer talu iawndal sy'n deillio o wneud y Datganiad Breinio Cyffredinol at ddibenion galluogi datblygiad cynhwysfawr Cynllun Adfywio Glannau Porthcawl. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Chwefror 2025 |

**444. Materion Brys**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Chwefror 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 16:00